# CYNGOR CYMUNED BETHESDA
# BETHESDA COMMUNITY COUNCIL

*"Gwerth cymuned yw'n credo*
*A'n braint yw gwarchod ein bro"*


Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
*Clerk and Chief Financial Officer*
**Donna Watts**
Rhif Ffôn: 01248 602131
Ebost: CyngorBethesda@ogwen.org

26 Stryd Fawr
Bethesda
Gwynedd
LL57 3AE


Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol o'r Cyngor a gynhaliwyd dros Zoom
**Nos Iau 24ain Chwefror 2022**

**PRESENNOL:**
**Ward Ogwen**
Y Cynghorydd Griff Morris
Y Cynghorydd Walter Williams
Y Cynghorydd Mary Jones
Y Cynghorydd Einir Williams
Y Cynghorydd Gwilym Owen
Y Cynghorydd Bleddyn Williams

**Ward Gerlan**
Y Cynghorydd Ann Williams
Y Cynghorydd Linda Brown

**Ward Rachub**
Y Cynghorydd Godfrey Northam
Y Cynghorydd Michael Williams
Y Cynghorydd Pearl Evans

**Cyngor Sir**
Y Cynghorydd Paul Rowlinson

1. **Croesawyd** pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd y Cyng. Bleddyn Williams
   **Ymddiheuriadau** –gan y Cyngr. Dyfrig Jones, Neville Hughes a Rheinallt Puw

**2. Datgan Diddordeb**
Dim i'w ddatgan.

**3. Materion Brys**
**3.1** Lloches bws Gerlan – y Cyng. Paul Rowlinson am drefnu cyfarfod gyda'r Cynghorwyr Ann Williams a Linda Brown i drafod os oes safle addas i osod fainc.
**3.2** Torri gwair Mynwent Coetmor – cyfarfod wedi ei drefnu ar gyfer dydd Llun 7fed o Fawrth am 1.00yh, gyda swyddogion Cyngor Gwynedd i drafod trefniadau i'r toriadau ychwanegol. Y Cyng. Mary Jones a Walter Williams a'r Clerc i fynychu.

**4. Cofnodion**
Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Ionawr 2022.

**5. Materion yn codi o'r Cofnodion**
**5.1** Rhos y Nant – problem gyda dŵr yn sefyll - Cyng. Rheinallt Puw. Ar y gweill.
**5.2** CCTV Stryd Fawr – ar y gweill – y Clerc.
**5.3** Arwyddion stryd – ar y gweill – y Clerc.
**5.4** Llinellau melyn ym Mhant Dreiniog – Cyng. Rheinallt Puw.
**5.5** Cae chwarae Rachub – Contractwr am anfon llythyr at Cyngor Gwynedd.
**5.6** Llwybr o Gwernydd i Abercaseg – ar y gweill.

**5.7** Ceblau uwchben yr A5 – dal un heb i'w wneud – y Clerc i holi eto.
**5.8** Llain o dir Stryd y Ffynnon, Gerlan – Adra i lanhau cyn gynted a phosib yn y flwyddyn newydd.
**5.9** Parcio dros ffordd i Londis – Cyngor Gwynedd am fonitro mwy aml.
**5.10** Ffin Cae Rhosydd a Llwyn Bedw – yr aelodau yn hapus i'r ffin symud, ond angen gwirio gyda Cyngor Llanllechid hefyd. Nid yw Cyngor Llanllechid yn awyddus i hyn ddigwydd, felly ni fydd Cyngor Bethesda yn gwneud cais gyda Cyngor Gwynedd.
**5.11** Stryd Fawr Rachub - Royal Oak hyd at Capel Carmel wedi ei ail-wynebu, ond y llinellau melyn ddim wedi eu ail-paentio. Parcio peryglus yn digwydd yno. Angen ebostio Cyngor Gwynedd eto.
**5.13** Bysus Arriva wedi rhoi'r gorau i stopio dros ffordd i Maes Bleddyn (pan yn teithio adref o Fangor). Dim ymateb wedi dod gan Arriva hyd yn hyn.

**6. Lwfans blynyddol**

Pawb wedi derbyn ffurflen ar gyfer 'optio allan' o dderbyn y taliad, a ffurflen 'Rhestr Wirio' gan CThEM os ydynt am dderbyn y taliad. Yr aelodau i lenwi'r ffurflen perthnasol a'i anfon yn ôl at y Clerc.

**7. Adroddiad Partneriaeth Ogwen**

Pawb wedi derbyn copi o'r Adroddiad Blynyddol ac eisiau llongyfarch a diolch i'r tîm i gyd am yr holl waith - adroddiad ardderchog. Pawb wedi syfrdanu gyda'r holl brosiectau sydd yn mynd ymlaen yn y dyffryn.

**8. Ysgol Feithrin Cefnfaes – cynrychiolwyr i'r Pwyllgor**

Y Cyngr. Einir Williams, Rheinallt Puw a Paul Rowlinson wedi ymuno'r pwyllgor, ac yn holi am fwy o gynrychiolwyr i helpu'r ysgol feithrin. Y Cyng. Linda Brown yn fodlon bod ar y pwyllgor. Penderfynwyd bydd pawb yn holi o gwmpas, a'i roi ar yr agenda eto mis nesaf.

**9. Diffibrilwyr**

Penderfynwyd archebu a gosod diffib ar bolyn ar gyffordd Ffordd Pant a Glan Ffrydlas, wrth y fainc.

**10. Rhoddion 2021-22**

Trafodwyd y rhestr ceisiadau. Penderfynwyd ar y swm y byddai pob mudiad yn ei dderbyn.
*(Y Cynghorwyr wedi datgan diddordeb yn y man priodol)*

| | |
|---|---|
| Llais Ogwan | £400 |
| Clwb Camera Dyffryn Ogwen | £100 |
| Clwb pêl-droed Ieuenctid Bethesda | £200 |
| Theatr Bara Caws | £250 |
| Gwyl Afon Ogwen | £175 |
| Eglwys Crist Glanogwen | £300 |
| Clwb Criced a Bowlio | £400 |
| Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd | £50 |
| Dawns i Bawb | £50 |
| Ambiwlans Awyr Cymru | £50 |
| Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen | £100 |
| Brownies Nant Ffrancon | £100 |
| CAB Gwynedd | £50 |
| Eisteddfod Genedlaethol Llyn ac Eifionydd 2023 | £100 |

| | |
|---|---|
| Marie Curie | £50 |
| Tŷ Gobaith | £50 |
| | |
| Caban Gerlan | £1500 |
| Balchder Bro Ogwen | £1000 |

**11. Diweddaru a mabwysiadu polisiau**
Pawb wedi derbyn copi o'r 'Rheoliadau Ariannol' a 'Rheolau Sefydlog'. Penderfynwyd bydd y Cyngor yn eu mabwysiadu.

**12. Adroddiadau gan gynrychiolwyr**
**Twristiaeth Gynaliadwy –** cafwyd adroddiad gan y Bleddyn Williams.

**13. Maes parcio Gerlan**
Cafwyd rhagor o wybodaeth am y sefyllfa gan Cyngor Gwynedd.

**14. Gohebiaeth**
Roedd pawb wedi cael copi o'r rhestr 'crynodeb o ohebiaeth Chwefror 2022'
**14.1** Ebost gan Cyngor Gwynedd – astudiaeth parcio A5 Llyn Ogwen – y Cyngor yn gefnogol i bob opsiwn, y 4 yn mynd i fod yn fanteisiol i'r safle.
**14.2** Ebost gan Cyngor Tref Nefyn – ynglŷn a ymgynghoriadau ail dai. Y Clerc wedi anfon ymateb i'r 3 ymgynghoriad.
**14.3** E-bost gan Cyngor Gwynedd – Cronfa Cymunedau Mentrus – Y Clerc i holi os yw TCC i'r Stryd Fawr yn gymwys.
**14.4** Dŵr Cymru – dogfen cyn-ymgynghori ar gyfer cynllun rheoli adnoddau dŵr 2024 – yr aelodau i ymateb fel unigolion.
**14.5** Prifysgol Bangor – rhaglen iSupport – eisiau i ni rannu'r poster.
**14.6** Un Llais Cymru – fideos codi ymwybyddiaeth/hyrwyddo cynghorwyr cymuned a thref. Angen rhannu'r fideos.
**14.7** GwyrddNi – gwahoddiad i ymuno a'r cynulliad, ar agor tan 4ydd o Ebrill 2022.
**14.8** Canllawiau Statudol Drafft ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref. Y Clerc i lenwi'r holiadur.
**14.9** Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol – Adroddiad Blynyddol 2022-23. Y Pwyllgor Cyllid i edrych ar yr adroddiad ac adrodd yn ôl i'r Cyngor llawn.

**15. Penderfyniadau a Ceisiadau Cynllunio**
**<u>Penderfyniadau</u>**
**C20/0716/13/LL**

| | |
|---|---|
| 1 Lon Sarnau, Bethesda | Cais ar gyfer trosi modurdy i anecs is-raddol i'r eiddo adnabyddir fel '1 Lon Sarnau, Ffordd y Stesion, Bethesda'<br>**Penderfyniad:** Ar y gweill. |

**C20/0152/13/LL**

| | |
|---|---|
| 4 Rhes Ogwen | Cais ar gyfer trosi is-lawr eiddo i uned breswyl hunan gynhaliol ynghŷd a rhannu modurdy cefn i fodurdy a phorth car<br>**Penderfyniad:** Ar y gweill. |

**C21/1031/13/LL**
Siloam, Allt Pen y Bryn, Bethesda

Estyniad a newidiadau i'r modurdy presennol er mwyn creu tŷ newydd.
**Penderfyniad:** Caniatawyd, gydag amodau.

**C21/0971/13/LL**
Kings Head, 51 Stryd Fawr, Bethesda

Newid defnydd uned byw yn 5 ystafell wely i westeion yn gysylltiedig ar tŷ tafarn
**Penderfyniad:** Ar y gweill.

**C21/1007/13/CR**
Kings Head, 51 Stryd Fawr, Bethesda

Addasiadau mewnol ac allanol i dŷ tafarn
**Penderfyniad:** Caniatawyd, gydag amodau.

**C21/1213/13/DT**
3 Cilfodan, Carneddi

Cais ar gyfer codi estyniad ffenestr gromen.
**Penderfyniad:** Caniatawyd, gydag amodau.

**C21/1215/13/RA**
Tir ger Llain y Pebyll, Bethesda

Rhyddhau amod 4, 9, 10 ac 12 o ganiatád cynllunio C20/0018/13/LL
**Penderfyniad:** Ar y gweill.

**Ceisiadau**
Dim i'w trafod.

**14. Taliadau**

Awdurdodwyd y canlynol

| | |
|---|---|
| Cyflogau (Chwefror) | £309.10 |
| CThEM (Chwefror) | £77.00 |
| Llais Ogwan - hysbyseb | £20.70 |
| Opus Energy – trydan Llys Dafydd | £42.54 |
| Partneriaeth Ogwen – hysbyseb Daily Post | £176.62 |
| Scottish Power – golau Nadolig | £20.62 |
| Scottish Power – golau Nadolig | £4.42 |
| J Roberts - Gorffwysfan | £1521.00 |
| Dyffryn Ogwen di-blastig | £100.00 |